09/10

Cymru a Gorllewin Lloegr –
Cynllun Plismona
Sector Cymru

BRITISH
TRANSPORT
POLICE

Cynnwys

Rhagair gan y Prif Gwnstabl a Chadeirydd Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain	**01**
Rhagair gan y Comander Rhanbarthol	**02**
Addewid plismona	**04**
Targedau cenedlaethol	**05**
Cymru a Gorllewin Lloegr - Targedau Sector Cymru	**08**



Yr Alban	S
Gogledd-orllewin Lloegr	NW
Gogledd-ddwyrain Lloegr	NE
Cymru a Gorllewin Lloegr	WW
Gogledd Llundain	LN
De Llundain	LS
Trên tanddaearol Llundain/DLR	LU

Rhagair

Prif Gwnstabl Ian Johnston
Millie Banerjee, Cadeirydd, Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain

Mae cynllun plismona 2009-10 wedi cael ei ddatblygu gan Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTPA) mewn partneriaeth agos â Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP), ynghyd â rhanddeiliaid teithwyr a diwydiant o'r gymuned reilffyrdd.

Mae BTP yn dal i ganolbwyntio ar weithio i greu amgylchedd rheilffordd diogel sy'n rhydd o ofn troseddau. Yn ei sefyllfa unigryw fel heddlu a ariennir yn fasnachol, mae'n parhau i fod yn sensitif i angen y gweithredwyr rheilffyrdd am i'r rhwydwaith redeg heb fawr ddim amhariaeth.

Un o'r datblygiadau mwyaf diweddar a phoblogaidd ym maes plismona fu'r broses o symleiddio'r targedau perfformiad cenedlaethol "o'r brig i'r bôn" a bennwyd gan y Llywodraeth er mwyn canolbwyntio ar un targed yn ymwneud â hyder y cyhoedd. Mae BTP wedi cyflwyno ei addewid plismona penodol ei hun ar gyfer y gymuned reilffyrdd sy'n anelu at wella'r gwasanaeth a meithrin hyder y cyhoedd. Mae'r addewid yn nodi'r safonau gwasanaeth y gall pobl eu disgwyl wrth ymdrin â BTP.

Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddatblygu i fodloni gofynion amgylchedd sy'n newid; yn arbennig, cynllunio Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 ac adeiladu ar eu cyfer, sydd wedi bod yn mynd rhagddo ers cryn dipyn.

Mae'r system reilffyrdd yn cludo'r niferoedd mwyaf erioed o deithwyr sy'n nodi'n aml mai diogelwch personol yw un o'r prif flaenoriaethau mewn arolygon. Tasg BTP yw gweithio'n agos gyda'r diwydiant rheilffyrdd er mwyn lleihau troseddau ac anhrefn ymhellach fel y gall teithwyr barhau i gael budd o'r llwyddiannau a gyflawnwyd o ran gwneud y rheilffordd yn fan mwy diogel. Byddwn yn parhau i hyrwyddo mentrau, fel y Cynllun Gorsafoedd Diogel a noddir gan y Llywodraeth, i wella'r amgylchedd rheilffyrdd.

Mae nifer y troseddau a gofnodir ar y rheilffyrdd wedi lleihau ymhob un o'r pedair blynedd diwethaf, ond mae BTP yn cydnabod y bydd y dirywiad economaidd yn effeithio ar bob rhan o fywyd, gan gynnwys trafnidiaeth reilffyrdd, ac mae'n parhau i fod yn hyblyg i'r newidiadau mewn lefelau troseddau a theithwyr a all ddigwydd. Mae'r oedi a achosir yn sgîl achosion o ddwyn ceblau, fandaliaeth a digwyddiadau eraill yn brawf difrifol o allu'r system reilffyrdd i ddarparu gwasanaeth dibynadwy, yn ogystal â bod yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch personol.

Er gwaethaf y gostyngiad parhaus mewn lefelau troseddau, mae'r her o leihau ofn troseddau yn bodoli o hyd. Mae presenoldeb swyddogion yr heddlu a staff rheilffyrdd mewn gorsafoedd rheilffyrdd yn chwarae rhan bwysig yn hyn: Mae rhaglen *Frontline*first BTP yn anelu at gynyddu nifer swyddogion yr heddlu sydd ar gael ar y rheng flaen, gan gynnwys mwy o Dimau Plismona yn y Gymdogaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy gweladwy. Bydd *Frontline*first yn ein helpu i sicrhau bod gennym y bobl gywir yn y man cywir er mwyn tawelu meddyliau'r cyhoedd a staff rheilffyrdd.

Mae BTPA yn hynod falch o swyddogion BTP a'r safonau uchel y maent wedi eu cyrraedd i sicrhau bod y gymuned reilffyrdd yn parhau i fod yn ddiogel. Ein hamcan dros y blynyddoedd i ddod fydd parhau i gyrraedd y safon honno drwy recriwtio a chadw'r swyddogion gorau yn y wlad. Edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos â'n holl bartneriaid er mwyn parhau i wneud y rheilffyrdd yn fan mwy diogel byth.

Tuag at reilffyrdd mwy diogel...

Rhagair rhanbarthol

Prif Uwcharolygydd Peter Davies
Comander Rhanbarthol Cymru a Gorllewin Lloegr

Mae Sector Cymru Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gynnal diogelwch teithwyr, staff a chymunedau sy'n teithio ledled rhwydwaith rheilffyrdd Cymru bob dydd.

Mae gan Sector Cymru 77 o swyddogion yr heddlu, naw aelod o staff yr heddlu a 22 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a leolir mewn naw gorsaf heddlu ledled Cymru. Gweithiwn yn agos gyda'n partneriaid gan gynnwys cwmnïau gweithredu trenau, Network Rail, Passenger Focus, heddluoedd y Swyddfa Gartref, Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn ac eraill i sicrhau amgylchedd rheilffyrdd diogel, sy'n rhydd o amhariaeth ac ofn troseddau. Bydd y Bartneriaeth Strategol newydd, a gadeirir gennyf i, ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gynulliad Cymru, Passenger Focus, cwmnïau gweithredu trenau, Network Rail ac Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, yn cael ei sefydlu'n llawn yn 2009-10 a bydd yn sicrhau gwell ffocws ac atebolrwydd.

Gyda'n gilydd, rydym wedi cael cryn lwyddiant dros y flwyddyn ddiwethaf a, gyda'ch help chi, anelwn at gyflawni llawer mwy yn 2009-10. Rwyf yn ymrwymedig i adolygu ein hadnoddau a'n perfformiad er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth plismona mwyaf effeithiol ac effeithlon posibl. Cynhelir yr adolygiad hwn yn unol â'r broses o uno sector Dwyrain Canolbarth Cymru â Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr yr Heddlu ym mis Ebrill 2009.

Mae cryn nifer o gefnogwr pêl-droed yn defnyddio'r rhwydwaith ledled Cymru drwy gydol yr wythnos ac mae sicrhau diogelwch teithwyr a staff tra'n lleihau'r amhariaeth a achosir gan leiafrif gwrthgymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Rydym hefyd yn ystyried ehangu cwmpas adnoddau plismona ategol drwy nifer o fentrau a gynhelir ledled Cymru i sicrhau ein bod yn fwy gweladwy ac yn cael mwy o effaith. Yn sgîl y ffaith bod llai o droseddau yn cael eu cyflawni fel y dangoswyd gan y safleoedd Plismona yn y Gymdogaeth, yn enwedig Pontypridd, a datblygiad parhaus ein tîm yng Nghasnewydd, lleihawn droseddau gyda'n gilydd.

Mae BTP wedi buddsoddi gryn dipyn mewn cynorthwywyr digidol personol (PDA) er mwyn gwneud swyddogion yn fwy gweladwy a lleihau gwaith papur, a bydd yr unedau llaw yn parhau i gael eu hyrwyddo yng Nghymru.

Erbyn hyn dim ond un targed canolog a bennir ar gyfer gwasanaeth yr heddlu gan y Llywodraeth - sef meithrin hyder y cyhoedd yn y ffaith bod yr heddlu ac asiantaethau eraill yn ymdrin â blaenoriaethau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol.

O fewn y fframwaith hwn, rydym wedi nodi ein blaenoriaethau Rhanbarthol ar gyfer 2009-10 mewn ymgynghoriad â phartneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn anelu at adlewyrchu anghenion lleol tra'n cyfrannu at amcanion cenedlaethol BTP. Mae'r targedau ar gyfer Cymru yn canolbwyntio ar ymosodiadau ar staff ac ymddygiad ymosodol tuag atynt, troseddau ar hyd rheilffyrdd, troseddau treisgar a rhywiol, troseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ym maes Plismona yn y Gymdogaeth ceir mesur o berfformiad arall sef cynnal o leiaf 12 o ymarferion refeniw a throseddau partner. Rydym hefyd yn benderfynol o gefnogi ymdrechion y diwydiant o ran troseddau difrifol sy'n ymwneud â chroesfannau er mwyn lleihau'r perygl i ddefnyddwyr y ffyrdd a'r rhwydwaith.

Fel y Comander Rhanbarthol newydd ar gyfer Cymru a Gorllewin Lloegr, dof i'r Rhanbarth yn benderfynol o sicrhau gwelliant parhaus a chyda'r weledigaeth i sicrhau bod ein holl gymunedau yn teimlo'n ddiogel, gan gyflawni addewid plismona sy'n anelu at ei chael yn gywir y tro cyntaf, bob amser. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yng Nghymru a pharhau i wneud y rhwydwaith yn fwy diogel.

Rwyf yn ymrwymedig i adolygu ein hadnoddau a'n perfformiad er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth plismona mwyaf effeithiol ac effeithlon posibl.



Addewid plismona

Fel y gwasanaeth plismona cenedlaethol ac arbenigol ar gyfer y rheilffyrdd, byddwn yn:

Eich trin yn deg gydag urddas a pharch bob amser, gan sicrhau eich bod yn cael pob tegwch o ran defnyddio ein gwasanaethau ar adeg sy'n rhesymol ac yn addas i chi.

Ymateb i ddigwyddiadau lle mae angen i'r heddlu fod yn bresennol mewn modd sy'n helpu i sicrhau cyn lleied o amhariaeth â phosibl ar deithwyr.

Ateb galwadau brys cyn gynted â phosibl, gan roi amcangyfrif i chi o'r amser y byddwn yn cyrraedd a'ch cyrraedd yn ddiogel.

Dyrannu ein hadnoddau i dargedu pryderon a blaenoriaethau lleol drwy gyfarfodydd misol lleol â'r diwydiant rheilffyrdd a siarad â theithwyr a'u cynrychiolwyr yn rheolaidd.

Cytuno ar flaenoriaethau plismona gweithredol lleol blynyddol gyda'n partneriaid a'u cyhoeddi yn ein cynlluniau plismona Rhanbarthol.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion lleol sy'n ymwneud â throseddau a phlismona drwy gyhoeddi mapiau misol o droseddau, a fydd yn dangos lefelau troseddau a thueddiadau ymhob gorsaf.

Lle y bydd gennym Dimau Plismona yn y Gymdogaeth, rhoi gwybodaeth i chi fel eich bod yn gwybod pwy yw eich tîm penodol, ble mae wedi'i leoli, sut i gysylltu ag ef a sut i weithio gydag ef. Byddwn yn sicrhau bod Timau Plismona yn y Gymdogaeth a phatrolau eraill yr heddlu yn weladwy ar yr adegau pan fyddant fwyaf effeithiol ac ar yr adegau yr ydych chi yn dweud wrthym fod eu hangen arnoch fwyaf. Ni chaiff timau eu cymryd allan o'r gymdogaeth yn fwy nag sy'n gwbl angenrheidiol. Byddant yn treulio o leiaf 80% o'u hamser yn eich cymdogaeth, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol.

Gwneud y rheilffordd yn fwy diogel drwy weithio gyda gweithredwyr gorsafoedd er mwyn gweithredu'r Cynllun Gorsafoedd Diogel.

Darparu gwasanaeth o ansawdd i ddioddefwyr troseddau ar reilffyrdd. Os byddwch yn dioddef trosedd ar reilffordd, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hynt eich achos o leiaf unwaith y mis tan i'r achos ddod i ben.

Ymdrin â chi mewn ffordd gwrtais, broffesiynol ac effeithlon pryd bynnag y dewch i gysylltiad â ni.

Cydnabod unrhyw anfodlonrwydd o ran y gwasanaeth yr ydych wedi'i gael o fewn 24 awr i'n hysbysu ohono. Er mwyn ein helpu i ddatrys y mater yn llawn, byddwn yn trafod sut y caiff ei drin gyda chi, yn rhoi cyfle i chi siarad wyneb yn wyneb â rhywun am eich pryderon a chytuno â chi ar yr hyn a gaiff ei wneud amdanynt a pha mor gyflym.

Caiff y safonau yn yr addewid eu hategu gan yr amcanion gweithredol manwl a amlinellir yn y cynllun plismona hwn.

Targedau cenedlaethol

Lleihau troseddau ac anhrefn

Troseddau hysbysadwy
Mae BTP yn ymrwymedig i leihau troseddau ac anhrefn ar y rheilffyrdd. Mae hwn yn darged heriol i BTP ar ôl lleihau troseddau 18% rhwng 2004-05 a 2008-09. Mae'r targed hwn yn canolbwyntio ar droseddau sy'n gysylltiedig â dioddefwyr ac nid yw'n cynnwys troseddau fel bod ym meddiant arfau ymosodol a chyffuriau, na fyddent fel arfer yn cael eu darganfod oni bai bod yr heddlu yn mynd ati i chwilio amdanynt yn benodol er enghraifft drwy ddefnyddio bwâu cyllyll a chŵn cyffuriau.

- **Lleihau troseddau hysbysadwy o gymharu â lefel 2008-09**

Cyfradd canfod troseddau hysbysadwy
Mae BTP wedi gweld cynnydd mawr yng nghyfradd gyffredinol canfod troseddau hysbysadwy o 25% yn 2006-07 i 32% yn 2008-09. Bydd y targed hwn yn sicrhau bod ymdrechion yn canolbwyntio ar wella perfformiad ymhellach.

- **Canfod o leiaf 33% o droseddau hysbysadwy**

Anhrefn pêl-droed
Mae BTP yn dyrannu cryn dipyn o adnoddau plismona i sicrhau bod cefnogwyr pêl-droed yn symud drwy'r rhwydwaith rheilffyrdd mewn modd diogel a threfnus. Mae'r targed hwn yn ategu ymrwymiad BTP i ddileu hwliganiaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r rhwydwaith rheilffyrdd.

- **Cynyddu nifer y troseddwyr a ganfuwyd am droseddau sy'n ymwneud â phêl-droed o leiaf 7%**

Diogelu'r economi rheilffyrdd

Dwyn ceblau
Mae achosion o ddwyn ceblau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i BTP a'r diwydiant rheilffyrdd. Gall troseddwyr achosi amhariaeth am wythnosau, gan effeithio ar deithwyr a gweithrediadau'r rheilffyrdd. Mae troseddau sy'n ymwneud â cheblau byw yn uniongyrchol gysylltiedig â phris copr ar y farchnad fyd-eang a bydd BTP yn rhwystro, yn arestio ac yn canfod troseddwyr sy'n cyflawni'r math hwn o drosedd.

- **Lleihau nifer yr achosion o ddwyn ceblau byw o leiaf 2%**

Rheoli marwolaethau
Mae gan BTP hanes sicr o ymdrin yn effeithiol â marwolaethau a sicrhau cydbwysedd rhwng parchu urddas y sawl sydd wedi marw, ymchwilio i'r farwolaeth yn drylwyr a chadw'r rheilffordd i redeg. Nid yw'r targed hwn yn cynnwys digwyddiadau mawr na'r rhai sy'n perthyn i'r categorïau canlynol sef heb eu hegluro, amheus, damwain traffig ar y ffordd a chroesfan.

- **Dod â gweithgarwch yr heddlu sy'n amharu ar symudiad trenau i ben o fewn 90 munud ar gyfartaledd i gael gwybod bod rhywun wedi marw mewn digwyddiad ar y rheilffyrdd**

Gwella gallu ac adnoddau BTP drwy well effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Effeithlonrwydd
Er mwyn cyflawni ei amcanion yn llwyddiannus, bydd angen i BTP sicrhau arbedion effeithlonrwydd blwyddyn am flwyddyn o 2% i'w hailfuddsoddi er mwyn bodloni galw cynyddol. Caiff y targed hwn ei fonitro a'i reoli drwy'r rhaglen *Frontline*first.

- **Cyflawni o leiaf 2% o arbedion effeithlonrwydd**

Recriwtio a dilyniant gyrfa
Mae BTP yn ymrwymedig i recriwtio a chadw pobl o wahanol gefndiroedd er mwyn parhau i ddatblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU a'r cyhoedd sy'n teithio. Mae'r gwaith o recriwtio swyddogion du a lleiafrifoedd ethnig wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn ers 2006-07 i gyfanswm o 190 neu 6.5% o'r gweithlu ac ym Mwletin Ystadegol diweddar y Swyddfa Gartref daw BTP yn drydydd o blith pob heddlu am gynrychioli swyddogion du a lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol. Mae targed 2009-10 yn dangos cynnydd yn nifer y swyddogion du a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi cael eu recriwtio o 17 yn 2008-09 i 27 yn 2009-10.

Bu'r broses o recriwtio swyddogion sy'n ferched yn heriol yn 2008-09. Er gwaethaf ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu dim ond 15% o'r swyddogion a gafodd eu recriwtio oedd yn ferched. Eleni y nod yw recriwtio o leiaf gynifer o ferched i BTP (27), sef 13% o'r holl weithgarwch recriwtio a gynlluniwyd.

Penderfynir ar weithgareddau a chanlyniadau 2009-10 a chânt eu monitro drwy gyfarfodydd Cyflawni Targedau Cynllun Plismona misol.

- **O leiaf 9% o swyddogion yr heddlu a gaiff eu dyrchafu i ddod o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig**
- **O leiaf 12% o swyddogion yr heddlu a gaiff eu dyrchafu i fod yn ferched**
- **O leiaf 13% o swyddogion newydd yr heddlu, heb gynnwys y rhai a gaiff eu trosglwyddo, i ddod o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig**
- **O leiaf 13% o swyddogion newydd yr heddlu, heb gynnwys y rhai a gaiff eu trosglwyddo, i fod yn ferched**

Rheoli absenoldebau
Mae BTP yn ymrwymedig i gyflawni lefel uchel o bresenoldeb ymhlith swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, gan fod hyn yn hanfodol i gynnal gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol. Ar ôl cynnydd yn nifer yr absenoldebau oherwydd salwch yn 2007-08, cyflawnodd BTP y targed hwn yn 2008-09.

- **Cyflawni llai nag wyth diwrnod o absenoldeb oherwydd salwch ar gyfartaledd ymhlith cyflogeion BTP**

Darparu gwell gwasanaeth i deithwyr, staff rheilffyrdd a'r diwydiant rheilffyrdd

Ansawdd gwasanaeth
Mae BTP yn anelu at ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb. Mae'r targed hwn yn mesur boddhad cyffredinol dioddefwyr troseddau â'r gwasanaeth a ddarperir gan BTP drwy'r Arolwg blynyddol o Ddioddefwyr Troseddau. Cyflawnodd BTP lefel boddhad gyffredinol o 80% yn 2008-09.

- **Cyflawni o leiaf 80% o foddhad dioddefwyr cyffredinol**

Rheoli cysylltiadau
Mae BTP yn ymrwymedig i sicrhau bod unrhyw un sy'n cysylltu ag ef, mewn argyfwng ai peidio, yn cael yr ymateb sydd ei angen arno. Bydd y targedau hyn yn sicrhau y gall BTP reoli ei ganolfannau ymdrin â galwadau newydd yn effeithiol a pharhau i gyrraedd y safonau uchaf. Mae BTP yn cyflawni'r targedau hyn ar hyn o bryd, a nodir yn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Ymdrin â Galwadau.

- **Ateb o leiaf 90% o alwadau brys o fewn 10 eiliad**
- **Ateb o leiaf 90% o alwadau eraill o fewn 40 eiliad**

Targedau rhanbarthol

Troseddau treisgar a rhywiol a lladradau
Mae BTP yn ymrwymedig i ddwyn y rhai sy'n cyflawni troseddau treisgar a rhywiol neu sy'n lladrata o flaen eu gwell. Cafodd 71% o'r troseddau hyn eu canfod o fewn Sector Cymru yn 2008-09.

- **Canfod o leiaf 70% o droseddau treisgar a rhywiol a lladradau**

Ymosodiadau ar staff ac ymddygiad ymosodol tuag atynt
Mae gweision cyhoeddus yn haeddu cael gwneud eu gwaith heb ofni niwed a bydd BTP yn gweithio mewn partneriaeth i ddwyn troseddwyr sy'n ymosod ar staff rheilffyrdd o flaen eu gwell. Cofnodwyd 56 o ymosodiadau ar staff a 70 o fygythiadau llafar a throseddau ymosodol o fewn Sector Cymru yn ystod 2008-09, y cafodd 77% a 66% eu canfod yn y drefn honno.

- **Canfod o leiaf 73% o ymosodiadau ar staff**
- **Canfod o leiaf 68% o fygythiadau ar lafar ac achosion o gam-drin a gofnodwyd yn erbyn staff**

Troseddau casineb
Mae BTP yn benderfynol o ddwyn troseddwyr o flaen eu gwell am y math hwn o drosedd, a all yn aml gael effaith ar y teulu a'r gymuned yn ogystal â'r dioddefwr. Canfu Sector Cymru 71% o droseddau casineb yn 2008-09.

- **Canfod o leiaf 66% o droseddau casineb**

Ymddygiad gwrthgymdeithasol
Mae BTP yn ymrwymedig i ganfod troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a nodwyd yn flaenoriaeth allweddol gan deithwyr a staff rheilffyrdd. Cafodd 260 o droseddwyr eu canfod o fewn Sector Cymru yn ystod 2008-09.

- **Canfod o leiaf 266 o droseddwyr am droseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol**

Troseddau ar reilffyrdd
Gall troseddau yn erbyn seilwaith rheilffyrdd arwain at anafiadau difrifol ac amharu ar y rhwydwaith. Cafodd 428 o droseddau ar reilffyrdd eu canfod o fewn Sector Cymru yn 2008-09.

- **Canfod o leiaf 437 o droseddau ar reilffyrdd**

Troseddau a gofnodwyd
Mae cyfanswm nifer y troseddau'n cynnwys troseddau hysbysadwy a throseddau anhysbysadwy.

- **Lleihau cyfanswm nifer y troseddau o leiaf 1%**

Plismona yn y Gymdogaeth
Bydd Sector Cymru yn parhau i ddatblygu Timau Plismona yn y Gymdogaeth penodol er mwyn tawelu meddyliau'r cyhoedd drwy gael eu gweld, datrys problemau ar y cyd a mynd ati i ymdrin â'r materion sydd bwysicaf i'r gymuned reilffyrdd ar sail cudd-wybodaeth.

- **Cynnal o leiaf 12 o weithrediadau refeniw a throseddau partner ar safleoedd timau Plismona yn y Gymdogaeth**

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn croesawu eich adborth. I anfon sylwadau atom neu am ragor o wybodaeth am Heddlu Trafnidiaeth Prydain, ewch i:
www.btp.police.uk

Cyswllt Rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr:
Chief Superintendent Peter Davies
Area Commander
British Transport Police
Wales and Western Area Headquarters
1st Floor, The Axis
10 Holliday Street
Birmingham
B1 1UP

Cyswllt cenedlaethol:
Michael Furness
Strategic Development Department
British Transport Police
Force Headquarters
25 Camden Road
London
NW1 9LN

michael.furness@btp.pnn.police.uk

BRITISH TRANSPORT POLICE